| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Cabinet** |
| Dyddiad y Cyfarfod: | **26 Ebrill 2016** |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | **Y Cynghorydd Bobby Feeley / Phil Gilroy** |
| Awdur yr Adroddiad: | **Siobhan Cuddeford** |
| Teitl: | **Asesiad Ariannol a Chodi Tâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynghori Aelodau ynglŷn â newidiadau gorfodol a dewisol ynghylch Asesiad Ariannol a Chodi Tâl yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i Aelodau ynghylch asesiad ariannol a chodi tâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gofyn am benderfyniad i gyflwyno'r newid dewisol i Ddiystyriaeth Incwm ar gyfer asesiadau ariannol ym mis Gorffennaf 2016, ar ôl cyfnod o gyfathrebu gyda derbynwyr cyfredol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'r Cabinet yn nodi'r newidiadau gorfodol yn y Ddeddf o asesiad ariannol amhreswyl ac uchafswm cyfraniadau o £60.00 yr wythnos i berson sy'n derbyn gofal seibiant/tymor byr o lai nag 8 wythnos.

3.2 Mae'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i gyflwyno'r newid dewisol i Ddiystyriaeth Incwm ar gyfer asesiadau ariannol amhreswyl ym mis Gorffennaf 2016, ar ôl cyfnod o gyfathrebu gyda derbynwyr cyfredol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn dod a dyletswyddau a swyddogaeth awdurdodau lleol o safbwynt gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ynghyd mewn un darn o ddeddfwriaeth. Mae Rheoliadau a Chod Ymarfer newydd o safbwynt asesiad ariannol a chodi tâl yn dod i rym, gan ddisodli'r fframwaith statudol gyfredol a fydd yn peidio â chael effaith. Mae hyn yn golygu bod angen newid ein polisïau a'n gweithdrefnau yn unol â'r Ddeddf er mwyn sicrhau bod ein staff o fewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'n hasiantaethau partner yn ymwybodol o oblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd.

4.2 Mae gwaith wedi ei wneud i adnabod meysydd o newid sylweddol a meysydd a fydd yn galluogi'r Awdurdod i gyflwyno taliadau newydd er mwyn ceisio lleihau'r pwysau cyllidol sy'n wynebu Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.

4.3 Mae’r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ddau faes o effaith sylweddol i’r Awdurdod o safbwynt y Ddeddfwriaeth, sef capio ffioedd ar gyfer Gofal Seibiant / Tymor Byr a newidiadau o safbwynt Diystyriaeth Incwm y Lwfans Byw i'r Anabl (Gofal) a’r Lwfans Gweini.

4.4 Adran 9.3 y Cod Ymarfer

Pan fydd unigolyn yn breswyliwr tymor byr (hy nid yw’r arhosiad yn hirach nag wyth wythnos) mewn cartref gofal a bod yr awdurdod lleol yn codi tâl dewisol am hyn, mae’n **rhaid** cynnal unrhyw asesiad ariannol o fodd yr unigolyn i wneud hyn fel petai’r unigolyn yn derbyn gofal a chymorth dibreswyl (gofal cartref), neu’n derbyn taliadau uniongyrchol am ofal a chymorth dibreswyl. Mae ffioedd gofal a chymorth dibreswyl wedi eu capio ar £60.00 yr wythnos sy’n sylweddol is na ffioedd preswyl tymor byr yr awdurdod ac amcangyfrifwyd y **bydd hyn yn golygu colled mewn incwm o fwy na £120,000 y flwyddyn.**

4.5 Adran 11 y Cod Ymarfer

Mae’r adran hon yn ymwneud â ‘Chodi tâl am ofal a chymorth yn y gymuned gan gynnwys yng nghartref unigolyn.' Mae’n golygu newid sylweddol ac yn dileu’r diystyriaeth incwm o £27.20 rhwng cyfradd uwch a chyfradd ganol Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweini. Mae hyn yn golygu y bydd pobl sy’n derbyn budd-dal Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweini uwch yn gorfod talu neu’n cael eu holi i gyfrannu hyd at £27.70 ychwanegol tuag at eu costau gofal a chymorth. Fodd bynnag, wedi codi tâl **rhaid** i awdurdodau lleol adael unigolyn sydd yn talu gydag isafswm incwm.

4.6 Ni fydd y cyfle creu incwm posib ar gyfer yr Awdurdod yn hysbys tan y bydd yr holl dderbynwyr wedi cael eu hail asesu’n ariannol, ond disgwylir y bydd yn digolledu'r incwm a gollir oherwydd y newidiadau am godi tâl am ofal seibiant / tymor byr.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Y flaenoriaeth i’r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yw bod pobl diamddiffyn yn cael eu gwarchod ac yn gallu byw eu bywydau mor annibynnol â phosib gyda blaenoriaeth trosfwaol o foderneiddio’r cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i’n cwsmeriaid.

5.2 Os na fydd y golled mewn incwm o £120,000 oherwydd y newid gorfodol i godi tâl ar gyfer gofal tymor byr yn cael ei adfer yna bydd y ddwy flaenoriaeth hyn mewn peryg.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Amcangyfrifir y bydd capio ffioedd gofal seibiant / tymor byr ar £60 yr wythnos yn golygu colled mewn incwm o £120,000 y flwyddyn os na chaiff hyn ei adfer drwy roi’r ddiystyriaeth ar waith ar gyfer Lwfans Byw i’r Anabl a Lwfans Gweini.

6.2 Bydd angen cynnal ailasesiad o bob defnyddiwr gwasanaeth a effeithir, ond teimlir y gallai’r gwaith hwn gael ei wneud drwy ddefnyddio'r adnoddau cyfredol o fewn y Tîm Cyllid, Incwm ac Asesu.

6.3 Amcangyfrifir y bydd gofyn i 95 Unigolyn, nad oeddynt yn gwneud cyfraniad tuag at eu gofal a'u cymorth ar ôl yr asesiad ariannol blaenorol, gyfrannu o £1.00 hyd at uchafswm o £27.20 yr wythnos. Bydd pob unigolyn sydd ar hyn o bryd yn derbyn diystyriaeth incwm yn cael gwybodaeth am sut y byddant yn cael eu heffeithio a sut i geisio am ildiad os ydynt yn teimlo bod y cynnydd hwn tuag at eu cyfraniad yn achosi caledi iddynt. Gellir rheoli'r llwyth gwaith ychwanegol hwn o fewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Mae'r newidiadau o ganlyniad i ddeddfwriaeth genedlaethol newydd, y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad yw gweithredu newidiadau'n unol â'r Ddeddf, Rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn gofyn am ymgynghori ar wahân gyda dinasyddion, gan fod proses ymgynghori lawn wedi ei chynnal gan Lywodraeth Cymru wrth roi'r Ddeddf ar waith.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gallai'r goblygiadau ariannol fod yn sylweddol os na chaiff yr incwm a gollir ei ddigolledu drwy newidiadau dewisol. Dylid cadw'r goblygiadau o fewn adnoddau gwasanaeth presennol yn y flwyddyn ariannol gyfredol a'u hadolygu fel rhan o'r broses gyllidebu wrth fynd ymlaen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Os na chytunir ar y newidiadau dewisol, bydd colled mewn incwm £120,000 o i'r Cyngor. Gallai hyn olygu lleihad yn y gwasanaethau sydd ar gael i bobl diamddiffyn

10.2 Mae'n bosib na fydd unigolion yn deall nac yn cytuno gyda'r newidiadau i'w cyfraniadau tuag at gost eu gofal a'u cymorth. Fodd bynnag, bwriedir rhoi newidiadau'r Diystyried Incwm ar waith ym mis Gorffennaf 2016 a bydd hyn yn rhoi amser i'r Tîm Cyllid, Incwm, ac Asesu i hyrwyddo'r newidiadau ac asesu'r effaith ar yr unigolion a rhoi gwybod iddynt am hyn. Bydd hefyd yn gyfle i dderbynwyr gofal a chymorth godi cwestiynau a phryderon cyn ei roi ar waith.

10.3 Tra bo'r newidiadau'n digwydd o ganlyniad i ddeddfwriaeth genedlaethol newydd, mae'r gweithredu'n cael ei wneud yn lleol gan bob awdurdod. Bydd dod a'r newid hwn i fewn o fis Gorffennaf hefyd yn unioni Sir Ddinbych yn rhanbarthol gyda gweithrediad awdurdodau eraill o'r newidiadau o dan y Ddeddf.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) yn rhoi pwerau dewisol i Awdurdodau Lleol i godi tâl am wasanaethau gofal a chymorth.